

Gwyddor Anifeiliaid

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Gwanwyn 2009

Gwyddor Anifeiliaid yn cael y marciau uchaf yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol



Yr Hen Goleg, Prifysgol Aberystwyth

Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, sydd yn awr yn ei bedwaredd flwyddyn, yn cael ei gynnal ledled y DU ac yn cael ei gomisiynu gan gyrff noddi Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi cael marciau uchel am foddhad myfyrwyr yn yr arolwg o'r cychwyn, ac mae canlyniadau'r Brifysgol am 2008 yn well eto. Ymhellach, yn y rhan o'r arolwg sy'n cynnwys Gwyddor Anifeiliaid, daeth cyrsiau Aberystwyth yn gyntaf drwy'r DU o ran boddhad myfyrwyr.

Dyma oedd gan Gyfarwyddwr y Sefydliad, yr Athro Wayne Powell, i'w ddweud am y canlyniadau: "Mae'r arolwg yn cadarnhau'r hynny y mae ein myfyrwyr eisoes yn ei ddweud wrthym am y dysgu. Mae ymrwymiad a gwybodaeth arbenigol y staff, yr adnoddau rhagorol megis ffermydd, labordai ac amgylchfyd hyfryd Aberystwyth, oll yn cyfuno i wneud IBERS yn ddewis cyntaf amlwg". A dyma oedd gan yr Athro Will Haresign, y Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu i'w ddweud: "Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r gwaith caled sy'n mynd ymlaen yn y Sefydliad o safbwynt y sylw a roddir i anghenion myfyrwyr a'r ymgais a wneir i sicrhau eu bod yn cael y profiad addysgol gorau y gallwn ei gynnig iddynt".

Llwyddiant Ysgoloriaeth

Mae Katie Tavener, un o'n myfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid, wedi ennill ysgoloriaeth gan Gronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Fferm Sir Fynwy, sy'n werth £1000. Llongyfarchiadau calonnog iawn iddi. Yn ogystal, mae Hefin Jones, sy'n fyfyrwr Gwyddor Anifeiliaid trydedd flwyddyn, wedi ennill ysgoloriaeth Ymddiriedolaeth Lifrai Cymru. Defnyddiodd yr arian hwn, ynghyd â grantiau eraill a enillwyd ganddo, i deithio i Niigata ac Osaka yn Japan i gyflawni ei draethawd estynedig, sef archwiliad o'r ffactorau sy'n cael effaith ar dyfiant Koi Japaneaidd.

Pa 'fygs' sy'n byw yn Bugs?

Y ddelwedd ystrydebol o gwningen yw **Bugs Bunny yn cnoi moronen**. Onderbod cwningod, mewn gwirionedd, yn bwyta planhigion, ychydig iawn a wyddom am y ffordd mae bwyd yn cael ei dorri i lawr yn eu coluddion. Fel gyda llysysorion eraill, gwyddom fod cwningod yn dibynnu ar bresenoldeb microbau yn eu llwybr treuliad er mwyn torri'r bwyd a amlyncwyd i lawr. Mae'r bwyd a dreuliwyd wedyn yn cael ei ysgarthu ar ffurf ysgarthion meddal, sydd yna'n cael ei amlyncu eilwaith gan yr anifail. Mae diraddiad bwyd gan ficrobau yn y llwybr treuliad wedi cael ei astudio mewn nifer o lysysorion ond, ar hyn o bryd, ychydig iawn a wyddom am y rhywogaethau microbaidd



Y cwningod a fu'n hael â'u hysgarthion meddal!

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
IBERS ABERYSTWYTH

Rhestr Cyrsiau

Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Biolog y Môr a Dŵr Croyw
Gwyddor Anifeiliaid
Gwyddor Chwaraeon Pobl a Cheffylau
Gwyddor Ceffylau
Sŵoleg
Sŵoleg a Microbiolog
Ymddygiad Anifeiliaid


Diddordeb?

Cysylltwch â Fay Hollick ar **01970 624471**
Ebobst: ffh@aber.ac.uk

sy'n cyflawni'r proses hwn yng ngholuddion cwningod. Fel rhan o'u traethawd estynedig, mae israddedigion Gwyddor Anifeiliaid yn ceisio canfod faint o wahanol ficrobau a geir yn ysgarthion meddal cwningod, a hynny er mwyn canfod faint ohonynt sydd yn eu hól-berfedd. Maent yn gwneud hyn drwy dyfu bacteria, a arunigwyd o'r ysgarthion meddal, ar blatiau agar, ac yna'n astudio perthynas genyn penodol yn y bacteria hyn mewn perthynas â'r hynny a welir mewn bacteria eraill. Drwy ddysgu rhagor am y dilyniannau DNA hyn, fe ddylem ddod i wybod pa fath o facteria sy'n byw yn llwybr treuliad cwningod.

ed: (unknown)

420
A C C A C C T G T C T T C G T G



Cromatogram o ddilyniant DNA o ficrobau yng ngholuddion cwningod

Darfodedigaeth Gwartheg a Chynhesu Byd-eang

Mae Hefin Williams a raddiodd yn IBERS ac sydd, ar hyn o bryd, yn ail flwyddyn ei astudiaethau PhD, yn edrych ar effaith newid yn yr hinsawdd ar y ddarfodedigaeth mewn gwartheg (BTB).



Am flynyddoedd lawer, mae nifer achosion BTB wedi bod yn cynyddu ar ffermydd llaeth yn ne-orllewin Lloegr ac, yn fwy diweddar, yn ne-orllewin Cymru hefyd. Fel mae'r gaeafau'n mynd yn fwy mwyn yn sgil cynhesu byd-eang, mae'n bosibl bod bacteria BTB yn gallu goroesi'n well ar borfeydd, gan beri i broblem BTB gael ei wasgaru'n fwy eang. Yn ogystal â'i astudiaethau PhD, mae Hefin yn ddyn prysur iawn sydd hefyd yn darlthio yn Gymraeg ar reolaeth cefn gwlad ac yn ffermio ar y penwythnosau.

IBERS yn cefnogi Plant mewn Angen gyda'u Bwtsias

Unwaith eto, gwisgodd staff a myfyrwyr eu bwtsias a mynd benben â'i gilydd mewn gêm bêl-droed flynyddol i godi arian i Blant mewn Angen.

Cynhaliwyd yr ornest dan do yn yr arena geffylau, ac er mwyn gwneud pethau'n fwy anodd i'r mwyaf medrus, clymwyd coesau'r sgorwyr goliau er mwyn arafu tipyn arnynt weddill y gêm. Enillodd y myfyrwyr y 'Welly Cup' am yr ail flwyddyn yn olynol - yr ifanc yn gorchfygu'r hen!



Y ddau dim ar ôl y gêm

Fel hyn y dywedodd Cyfarwyddwr y Sefydliad, yr Athro Wayne Powell, a lwyddodd i sgorio yn y gêm (yng nghanol y rhes flaen yn y llu): "Roedd hyn yn hwyl ac yn dangos y berthynas waith agos sydd rhwng y staff a'r myfyrwyr. Mae IBERS yn falch o gefnogi achos mor haeddiannol â Phlant mewn Angen.". Llwyddwyd i godi £125.

Canolfan Geffylau Lluest mor Brysur a Llwyddiannus ag Erioed



Canolfan Geffylau Lluest

Mae Canolfan Geffylau Lluest wedi parhau i redeg rhaglen brysur o gystadlaethau neidio ceffylau a dressage dros y gaeaf, a'r rheini wedi eu trefnu'n bennaf gan fyfyrwyr brwdfrydig. Yn Lluest hefyd y cynhaliwyd Para-bencampwriaeth Dressage Cymru, a enillwyd gan Paula Clark a oedd yn marchogaeth Spock, un o geffylau'r Brifysgol. Cipiwyd yr ail wobwr gan Amanda Say a oedd yn marchogaeth Seamus, un arall o geffylau'r Brifysgol. Yn ychwanegol at y digwyddiadau hyn, cynhaliwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant, gan gynnwys sesiynau gan Spenser Wilton, Jan Goldsmith a Patrick Print, cadeirydd Cymdeithas Ceffylau Prydain. Mae'n wych bod hyfforddwyr mor brofiadol yn defnyddio Lluest yn rheolaidd, a'u bod i gyd mor awyddus i annog myfyrwyr i gymryd rhan.

Bwyd Fferm y Brifysgol yn Ennill Gwobr



Huw McConochie (ar y dde) yn derbyn Gwobr Bwyd a Diod, Gwir Flas Cymru


Mae ffermydd y Sefydliad yn cynhyrchu bwyd yn fwyfwy ar gyfer myfyrwyr, staff, ymwelwyr a'r cyhoedd yn ffreuturau'r Brifysgol. Bob wythnos, mae cig eidion o fferm y Sefydliad yn cael ei barato'n lleol cyn cael ei weini i'r myfyrwyr ar y campws. Mae'r bwyd a gynhyrchir ar Ffermydd y Brifysgol wedi ei ganmol yn fawr, a dyfarnwyd iddo'r wobwr gyntaf yng Ngwobrau Bwyd a Diod Gwir Flas Cymru 2008/9. Fel hyn yr eglura Dr Huw McConochie, Rheolwr Ffermydd y Brifysgol ac un o israddedigion Gwyddor Anifeiliaid yn Aberystwyth gynt: "Mae darparu bwyd i'r Brifysgol wedi caniatáu inni ddechrau ar y broses o symud yn nes at ein cwsmeriaid, gan leihau milltiroedd bwyd yn sylweddol a sicrhau bod cwsmeriaid ym mwyta'i'r Brifysgol yn cael bwyd lleol, o safon uchel. Mae'r wobwr hon yn cadarnhau bod y bwyd a gynhyrchwn yma o'r safon uchaf."

Argraffiad Newydd o Werslyfr

Mae trydydd argraffiad o werslyfr poblogaidd Dr Mina Davies-Morel, Equine Reproductive Physiology, Breeding and Stud Management, newydd gael ei gyhoeddi.

Mae Dr Davies Morel yn dysgu ffisioleg bridio i bob myfyriwr Gwyddor Anifeiliaid, a rheolaeth bridfeydd i fyfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid yn eu trydedd flwyddyn ar Lwybr Astudiaethau Ceffylau'r cwrs.

Mae ei llyfr newydd yn ymdrin ag anatomeg a ffisioleg cesyg a meirch; mae'n mynd ymlaen i edrych ar y ffordd y gellir cymhwysu'r wybodaeth hon er mwyn bridio ceffylau'n llwyddiannus, a hynny mewn modd sy'n hybu cynhyrchiant a lles anifeiliaid.



Clawr llyfr newydd Dr Davies-Morel